



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
Heintiedig Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

CANLLAWIAU AR GYFER FFURFLEN G

CAIS GAN WEDDWON, GWŶR GWEDDW,
PARTNERIAID A PHLANT DIBYNNOL
BUDDIOLWR YMADAWEDIG I DDERBYN TALIAD
PROFEDIGAETH A THALIADAU RHEOLAIDD

CANLLAWIAU AR GYFER YMGEISWYR

Ni ddylai plant dibynnol gwblhau'r ffurflen hon os oedd gan y buddiolwr ymadawedig briod neu bartner.

Os ydych chi'n weddw, yn ŵr gweddw, yn bartner neu'n blentyn dibynnol i fuddiolwr ymadawedig a oedd yn derbyn cymorth gan y cynllun o ganlyniad i haint yr oedd wedi'i ddal, gallwch chi ddefnyddio'r ffurflen hon i hawlio unrhyw daliadau y mae gennych chi hawl iddynt o dan delerau'r cynllun:

- Am dair blynedd yn dilyn y farwolaeth, bydd taliadau gwŷr priod neu wragedd priod/partneriaid y rhai sydd wedi cofrestru ar y cynllun yn gyfwerth â 75% o'r hawl flynyddol.

Er mwyn i bartner allu gwneud cais, mae'n rhaid yr oedd y partner yn byw gyda'r buddiolwr ar adeg y farwolaeth.

Er mwyn i blentyn dibynnol allu gwneud cais, mae'n rhaid yr oedd yn iau na 18 (neu 21 os oedd mewn addysg lawn amser) ar adeg y farwolaeth.

Os yw'ch amgylchiadau yn wahanol i'r hyn sydd uchod, cysylltwch â Chynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru am arweiniad.

Mae rhagor o fanylion ar gael ar ein gwefan

SUT I WNEUD CAIS

Dylech chi gwblhau pob adran ar y ffurflen hon. Wedyn dylech chi ddychwelyd y ffurflen sydd wedi ei chwblhau, ynghyd â phob dogfen ategol y gofynnwyd amdani, yn uniongyrchol i:

Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru
Canolfan Ganser Felindre
Heol Felindre
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 2

DOGFENNAU ATEGOL SYDD EU HANGEN

Darparuoch y dogfennau canlynol i gefnogi'ch cais:

- Copi o brawf o'ch hunaniaeth ar ffurf llun, er enghraifft:
 - Trwydded Yrru
 - Pasport
 - Cerdyn Hawl Cenedlaethol ar gyfer teithio am ddim
- Prawf o'ch cyfeiriad, er enghraifft:
 - Copi o fil diweddar (e.e. treth gyngor, nwy neu drydan)
 - Copi o adroddiad banc diweddar

Os ydych chi'n bwriadu anfon adroddiad banc neu fil oddi ar y we, sicrhewch ei fod yn cynnwys eich cyfeiriad, ac mae'n rhaid iddo gynnwys cyfeiriad HTTP y wefan hefyd.

- Dylai gweddwon, gwŷr gweddw a phartneriaid sifil anfon copi o'r Dystysgrif Priodas neu'r Dystysgrif Partneriaeth Sifil rhyngoch chi a'r person ymadawedig y mae'r cais hwn yn berthnasol iddo.
- O ran partneriaid, mae'n rhaid ichi allu dangos naill ai fil sydd wedi ei anfon at y ddau ohonoch chi neu gyfrif banc sy'n profi'r statws hwn. Mae'n rhaid i'r rhain fod yn berthnasol i farwolaeth y buddiolwr. Hynny yw, mae'n rhaid eu bod wedi eu hanfon yn weddol fuan ar ôl marwolaeth y buddiolwr ac yn cynnwys eich enw chi ac enw'r buddiolwr y mae'r cais yn berthnasol iddo.
- Copi o dystysgrif geni'r plentyn dibynnol sy'n dangos bod y buddiolwr ymadawedig yn rhiant ichi
- Copi o Dystysgrif Marwolaeth y buddiolwr ymadawedig

BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Bydd Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yn adolygu'r cais a'r dogfennau ategol rydych chi wedi eu darparu. Os bydd angen unrhyw fanylion eraill, bydd y cynllun yn cysylltu â chi i ofyn amdanynt. A bwrw y bydd y wybodaeth y byddwch chi wedi ei darparu yn cadarnhau bod gennych chi hawl i gofrestru ar y cynllun, cewch chi lythyr gan y cynllun yn cadarnhau hyn. Bydd y llythyr hwn hefyd yn cadarnhau manylion am unrhyw daliadau rheolaidd y mae gennych chi hawl i'w derbyn gan y cynllun.

CYMORTH GYDA'R FFURFLEN HON

Os bydd angen cymorth arnoch chi i gwblhau'r ffurflen hon, cysylltwch â
Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru